**MB (07-09) Papur 2 (Rhan 1)**
**Adroddiad Rheolaeth Ariannol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 7 Medi 2009
**Amser:** 10:00-12:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur**: Steve O'Donoghue

# Adroddiad Rheolaeth Ariannol: Y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2009

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y Fewnrwyd.***

## TROSOLWG AR BERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y CYFNOD

1. Y gwariant net erbyn diwedd mis Gorffennaf oedd £13.6miliwn, sef tanwariant o 8% (£1.2miliwn) yn erbyn y gyllideb a bennwyd ar gyfer y cyfnod. Gellir priodoli 5.3% (£0.8miliwn) o'r tanwariant hwn i gostau yr ymrwymwyd iddynt ond na chawsant eu talu yn ôl y disgwyl yn ystod y cyfnod dan sylw. O ystyried hyn, y tanwariant presennol yw 2.7% (£0.4miliwn). Y targed o ran Dangosydd Perfformiad Allweddol, yw sicrhau na fydd amrywiannau uwchlaw 2% o'r gyllideb a bennwyd yn y gwir wariant erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae gwaith ar y gweill yn y cyswllt hwn, fel yr eglurir ym mharagraff 5 isod. Yn ystod yr un cyfnod y llynedd, 1.8% oedd y tanwariant.

2. Mae dadansoddiad manwl ategol i'w weld yn yr atodiad:

   - Mae Nodyn 1 yn cyflwyno perfformiad cyllidebol yr holl feysydd gwasanaeth
   - Mae Nodyn 2 yn rhoi eglurhad dros yr amrywiannau
   - Mae Nodyn 3 yn crynhoi'r gwariant yn ôl natur y gost
   - Mae Nodyn 4 yn rhoi trosolwg ar y gronfa wrth gefn, arian y cytunwyd i'w drosglwyddo a cheisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn.
   - Mae Nodyn 5 yn rhestru'r ceisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn
   - Mae Nodyn 6 yn rhestru'r arbedion, yr enillion effeithlonrwydd a'r tanwariant yn ystod y flwyddyn
   - Mae Nodyn 7 yn rhoi trosolwg ar yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn
   - Mae Nodyn 8 yn rhoi trosolwg ar ganran y gwariant hyd yma eleni o'i gymharu â'r llynedd

**Y NEGESEUON ALLWEDDOL ac ASESIAD RISG O'R GYLLIDEB A GYMERADWYWYD AR GYFER Y FLWYDDYN (£47.751miliwn)**

3. Gosododd Llywodraeth Cymru gyllideb atodol ar 14 Gorffennaf (GEN-LD7634) a oedd yn cynnwys cynnydd o £1.95miliwn i Gomisiwn y Cynulliad a fydd, os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad, yn cynyddu cyllideb y Comisiwn i £49.701miliwn. Mae'r Comisiwn yn gofyn am y cynnydd hwn i sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i ariannu prosiect y Rhwydwaith Unedig ("UNO"). Cytunwyd ar yr achos busnes ar gyfer y prosiect hwn ar ôl cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn. Cafodd y Pwyllgor Cyllid wybodaeth yn egluro'r rhesymwaith. Dywedwyd wrth y Cynulliad yr hydref diwethaf fod posibilrwydd y byddai'r Comisiwn yn gofyn am gyllideb atodol er mwyn medru cyflwyno'n cynlluniau *i-change.* Y prosiect UNO yw sylfaen y cynlluniau hyn. Nid yw dyddiad wedi'i bennu ato ar gyfer trafod y cynnig cyllidebol atodol.

4. Dyma'r meysydd risg yn y gyllideb:

   ⊗ UNO – mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â chostau ac amseriad, yn bennaf ynghylch dyrannu'r gwaith a'r costau rhwng y flwyddyn ariannol bresennol a 2010-11. Mae angen:

      i. Egluro cyfanswm y costau cyn gynted â phosibl – yr amcangyfrif hael presennol at ddibenion y gyllideb yw £2.7miliwn
      ii. Pennu gwariant rhwng 2009-10 a 2010-11 – mae'n bosibl y bydd angen i ni gymryd camau i rannu'r adnoddau sydd ar gael yn gytbwys rhwng y ddwy flynedd
      iii. Monitro'r prosiect yn ofalus i sicrhau bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu nodi a'u trafod cyn gynted â phosibl.

   ⊗ Prosiect y Pierhead – gan ein bod wedi cael caniatâd adeilad rhestredig erbyn hyn, mae cytundebau wedi'u trefnu a disgwylir y caiff y gwaith ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ac o fewn y gyllideb o £1.05miliwn a gymeradwywyd.

   ⊗ Hyblygrwydd yng nghyllideb cyffredinol y Comisiwn a'r gronfa wrth gefn. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm y ceisiadau posibl am arian o'r gronfa wrth gefn y (£1.9m) yn uwch na'r arian sydd ar gael (£1.4m) ond rydym wedi nodi arbedion a thanwariant ychwanegol gyda chymorth rheolwyr cyllidebau a ddylai unioni'r diffyg. Ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd, sydd i'w weld yn Nodyn 7 yn yr atodiad, yw tanwariant cyffredinol o oddeutu £0.1miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau gwybodus ynglŷn ag arbedion a thanwariant ychwanegol ac ynglŷn â'r pwysau ariannol ychwanegol rydym yn disgwyl eu hwynebu.

5. ⊗ Mae hefyd yn amlwg o'r trosolwg ar y cyfnod hwn a'r cyfnodau blaenorol ei bod yn dal yn anodd pennu cyllideb. Rydym yn gweithio gyda'r Adrannau Cyfathrebu Allanol, Adnoddau Dynol a Diogelwch i dreialu dull newydd o ragweld gwariant ac os bydd yn llwyddiannus, caiff ei ehangu'n raddol. Ar lefel gwasanaethau, mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ragweld y gwariant, yn hytrach na'r gyllideb, yn gywir. Ar lefel gyfundrefnol, bydd yn amlygu diffygion neu arbedion ynghynt a bydd hynny o gymorth wrth

wneud penderfyniadau, ac yn sicrhau y bydd ein rhagolygon ar gyfer yr alldro'n fwy dibynadwy. Law un llaw â hyn, rydym yn adolygu prosesau'n ymwneud ag archebion prynu a thalu anfonebau i sicrhau bod ein cyflenwyr yn cael eu talu'n fwy prydlon ac yn fwy effeithlon a'n bod yn lleihau gwaith papur ac yn gwneud y defnydd gorau o'n system gyllid, ac yn gwneud gwell defnydd o wasanaeth croniadau CODA. O ganlyniad, dylem fedru atal gwariant yr ymrwymwyd iddo rhag ymddangos fel tanwariant pan fydd anfoneb yn hwyr yn cyrraedd. Bydd hyn oll yn helpu i ddelio'n rhannol â'r broblem yn ymwneud ag amseriad y cyfeiriwyd ati yn y trosolwg.

6. ✓Ers mis Ebrill, mae bron £0.4m wedi'i ryddhau o gyllidebau'r gwasanaethau i'r gronfa wrth gefn ac mae arbedion a thanwariant ychwanegol wedi'u nodi. Byddwn yn adolygu Cynlluniau Effeithlonrwydd y gwasanaethau yn ystod mis Medi ac rydym yn sylweddoli bod angen rhoi rhagor o gyngor a chymorth i fwrw ymlaen â'r agenda effeithlonrwydd.

## ARGYMHELLION I'R BWRDD

7. **Rydym yn argymell bod aelodau'r Bwrdd yn:**

   a. **Ystyried pa mor briodol yw'r amrywiannau ym mherfformiad cyllidebol y gwahanol feysydd gwasanaeth ac a ellir eu cyfiawnhau**
   b. **Tynnu sylw at unrhyw faterion arwyddocaol na ddaeth i'r amlwg yn y rhagolwg o'r alldro rhagamcanol. Gall y rhain gynnwys cynnydd yn y costau amcangyfrifedig, neu arbedion/tanwariant posibl na nodwyd cynt**
   c. **Adolygu'r risgiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad ac ystyried unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau hyn.**

## ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## Dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *1. Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2009-10*


| **Gwasanaeth** | **Cyllideb a bennwyd (£'000)** | **Gwir wariant hyd yma (£'000)** | **Cyllideb sy'n weddill ar gyfer y cyfnod (£'000)** | **Amrywiant %** | **Cyllideb flynyddol 2009-10 (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 566 | 495 | 71 | 13 | 1,786 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 204 | 175 | 29 | 14 | 647 |
| | **770** | **670** | **100** | **13** | **2,433** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 498 | 518 | -20 | -4 | 1,426 |
| Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau | 2,711 | 2,182 | 529 | 20 | 7,660 |
| Gwasanaethau Ariannol | 254 | 246 | 8 | 3 | 723 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 4,376 | 4,147 | 229 | 5 | 13,045 |
| TGCh | 1,250 | 1,073 | 177 | 14 | 4,778 |
| Cyfathrebu Allanol | 804 | 712 | 92 | 11 | 2,724 |
| Diogelwch | 760 | 685 | 75 | 10 | 2,281 |
| | **10,653** | **9,563** | **1,090** | **10** | **32,637** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 615 | 635 | -20 | -3 | 1,922 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 351 | 333 | 18 | 5 | 1,161 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol | 589 | 579 | 10 | 2 | 1,993 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 411 | 346 | 65 | 16 | 1,345 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 31 | 29 | 2 | 5 | 95 |
| | **1,997** | **1,922** | **75** | **4** | **6,516** |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | **13,420** | **12,155** | **1,265** | **9** | **41,586** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | 1,400 | 1,452 | -52 | -4 | 4,200 |
| Cronfa Bensiwn yr Aelodau | | | | | 500 |
| Cronfa wrth gefn | | | | | 1,135 |
| Cronfa wrth gefn yr Aelodau | | | | | 330 |
| **Cyfansymiau** | **14,820** | **13,607** | **1,213** | **8** | **47,751** |

## 2. *Eglurhad o'r amrywiannau uwchlaw'r goddefiant o 2% ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben Gorffennaf 2009*

| Gwasanaeth/ Amrywiant %/£'000 | Rheswm dros yr amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|
| **Yr Uned Gorfforaethol**<br>13% yn is na'r gyllideb<br>71 | Anfonebau am gostau Archwiliadau Allanol a gronnwyd yn 2008-09 (63) heb ddod i law eto | Dylai costau Archwiliadau Allanol gyfateb i'r gyllideb a bennwyd pan ddaw'r anfonebau am waith y llynedd i law. |
| **Y Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>14% yn uwch na'r gyllideb<br>29 | Tanwario ar gostau staff oherwydd swyddi gwag (27). | Nodwyd tanwariant sylweddol wrth drafod â Phennaeth y Gwasanaeth a chaiff yr arian ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn maes o law. |
| **Adnoddau Dynol**<br>4% yn uwch na'r gyllideb<br>20 | Gorwario ar yswiriant a'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth (65), ond caiff hyn ei gydbwyso gan danwariant o 43k at ei gilydd | Mae'r gwasanaeth hwn yn treialu system newydd i ragweld gwariant ac mae wedi nodi gorwariant posibl o £100 mil ar y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth - caiff yr arian ei drosglwyddo cyn bo hir. |
| **Rheoli Ystadau a Chyfleusterau**<br>20% yn is na'r gyllideb<br>529 | Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd (502) yw'r prif reswm dros y tanwariant | Mae'r Cydgysylltydd Cyllid wedi gofyn i'r contractwyr anfon yr anfonebau er mwyn anfon taliadau. Bydd llinellau gwariant newydd ar gyfer y meysydd dan sylw'n cael eu cyflwyno i adlewyrchu'r sefyllfa newydd. Bydd yr Adran Gyllid yn cydweithio â'r gwasanaeth i sicrhau bod y proffiliau / rhagolygon yn fwy manwl gywir yn y dyfodol. Bydd yr adran yn cymryd rhan yn ein hadolygiad o archebion prynu a'r broses talu anfonebau. |
| **Cyflogau a Lwfansau Aelodau**<br>5% yn is na'r gyllideb<br>229 | Yn bennaf oherwydd nad oedd Aelodau wedi hawlio'u cyflogau llawn, neu eu lwfansau costau swyddfa llawn a lwfansau costau ychwanegol eraill (152). Hefyd, doedd dim cymaint o hawliadau costau teithio a'r disgwyl (76) | Bydd £0.226 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn o wahanol linellau gwariant, a bydd cyllidebau'n cael eu pennu eto. Mae'r swm i'w drosglwyddo wedi'i gynnwys eisoes yn yr alldro a ragwelir. |
| **ICT**<br>14% yn is na'r gyllideb<br>176 | Yn bennaf oherwydd tanwario ar brosiectau TG oherwydd addasiadau diwedd blwyddyn 2008-09 (146) | Mae'r Gydgysylltydd Cyllid yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yng nghyswllt anfonebau cytundeb Siemens sydd heb eu talu. |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddfa'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>5%  yn is na'r gyllideb<br>18 | Yn bennaf oherwydd tanwario ar gostau staff (15) | Mae'r gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu a bydd yn recriwtio staff ychwanegol cyn bo hir a fydd yn defnyddio'r tanwariant yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol. |
| **Gwasanaeth y Pwyllgorau**<br>16%  yn is na'r gyllideb<br>65 | Tanwario ar gostau staff (24) oherwydd swyddi gwag. Tanwario ar gostau teithio ACau a staff gan nad oes rhai ymweliadau wedi digwydd eto.<br>(21). | Mae'r gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu ar hyn o bryd a bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i wneud hyn. |
| | Tanwario ar dreuliau – cynghorwyr/tystion (12). | Mae'r gwaith yr oedd disgwyl y byddai'n rhaid talu amdano o'r gyllideb treuliau - cynghorwyr/tystion, wedi ei ohirio gan greu'r tanwariant. Bydd y proffiliau newydd yn ystyried y dyddiad dechrau newydd. |
| **Cyfathrebu Allanol**<br>11%  yn is na'r gyllideb<br>92 | Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd (47), oedi ym mhrosiect y Pierhead gan y bu'n rhaid aros am ganiatâd adeilad rhestredig  (25), swyddi gwag (10) a llai hawliadau am dreuliau'n gysylltiedig â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad (6). | Mae'r gwasanaeth hwn yn treialu system newydd ar gyfer rhagweld gwariant a bydd proffiliau newydd yn cael eu paratoi ar gyfer llinellau gwariant. |
| **Diogelwch**<br>10%  yn is na'r gylideb<br>75 | Gorwario ar oramser (30) oherwydd oedi cyn rhoi'r patrymau sifft newydd ar waith, ond caiff hyn ei gydbwyso gan danwario sylweddol ar gytundeb yr heddlu  (104) oherwydd amseriad anfonebau a swydd rhingyll sydd heb ei llenwi | Gofynnwyd i'r gwasanaeth hwn dreialu'r system newydd ar gyfer rhagweld gwariant a fydd yn ein helpu i ddeall y rhesymau dros y tanwariant. Rydym hefyd yn ceisio gwneud gwell defnydd o system groniadau CODA rhag i wariant yr ymrwymwyd iddo ymddangos fel tanwariant pan fydd anfonebau'n hwyr yn cyrraedd. |

## 3. *Y gyllideb a bennwyd yn erbyn gwir wariant hyd yma – yn ôl natur y gwariant*




## 4. *Arian a drosglwyddwyd*

| **Balans y gronfa wrth gefn :** | Rhyddhawyd o gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Dyrannwyd i gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Balans y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y mis (£'000) |
|---|---|---|---|
| *Balans gweithredol agoriadol 01/04/09* | | | *983* |
| Ebrill | 163 | -161 | 985 |
| Mai | 210 | - | 1,195 |
| Mehefin | - | -60 | 1,135 |
| Gorffennaf | - | - | - |
| **Is-gyfanswm** | **373** | **-221** | **1,135** |
| Ceisiadau posibl am arian | | | -1,947 |
| Cronfa wrth gefn yr Aelodau | | | 330 |
| **Balans posibl (is-gyfanswm)** | | | **-482** |

# ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## Dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *5. Crynodeb o'r ceisiadau posibl am arian ar 31 Gorffennaf 2009*

| Gwasanaeth | Ceisiadau posibl am arian | Amcangyfrif o werth (£'000) y ceisiadau posibl am arian ar 30 Mehefin 2009 | Y sefyllfa ar 30 Mehefin 2009 | Amcangyfrif o werth y (£'000) ceisiadau ychwanegol ym Mehefin 2009 | Rhyddhawyd i'r gronfa wrth gefn ym Mehefin 2009 (£'000) | Dyrannwyd o'r gronfa wrth gefn i gyllideb y gwasanaeth ym Mehefin 2009 (£'000) | Amcangyfrif o werth y ceisiadau posibl am arian ar 30 Mehefin 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu Allanol | Cam 2 (a3?) Prosiect y Pierhead | 750 | Cyllideb o £1.1 miliwn at ei gilydd gan gynnwys £0.3 miliwn o gyllideb yr Adran Cyfathrebu Allanol | | | | 750 |
| TGCh | Y Rhwydwaith Unedig | 717 | Cyhyd ag y caiff y gyllideb atodol ei chymeradwy | | | | 717 |
| | Newidiadau yn FTR Gold | 10 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 10 |
| | Gosod cyfarpar technegol | 34 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 34 |
| Yr Uned Gorfforaethol | Swyddi newydd – rhaglen newid | 114 | Cais newydd ym mis Mehefin – Heb ei ddyrannu eto . | | | | 114 |
| | Rhagor o waith Archwilio Allanol | 5 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 5 |
| | Ymestyn panel Adolygu'r Aelodau– angen rhagor o arian | 53 | Heb ei ddyrannu eto . Yn aros am achos busnes | | | | 53 |
| Rheoli Ystadau | Costau adnewyddu ychwanegol 3A | 87 | Heb ei ddyrannu eto . Yn aros am achos busnes | | | | 87 |
| | Sgriniau/bythau Cofnod y Trafodion | 25 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes | | | | 25 |
| | Y Tîm Gwyrdd | 16 | Heb ei ddyrannu eto (dilëwyd o gyllideb yr Uned Gorfforaethol). | | | | 16 |
| Adnoddau dynol | Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth | 100 | I'w ddyrannu ar ôl adolygu'r rhaglen | | | | 100 |
| Cyllid | Swydd HEO ran amser | 36 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 36 |
| | **CYFANSWM** | **1,947** | | | | | **1,947** |

### *6. Effeithlonrwydd ac arbedion yn ystod y flwyddyn*

| Gwasanaeth | Manylion | Effeithlonrwydd cylchol (£'000) | Effeithlonrwydd anghylchol (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | Ildiwyd gan Gynghorwyr – cyfrif treuliau/tystion, gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 28 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Ildiwyd o'r gyllideb staff asiantaeth gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 40 |
| | Ildiwyd o'r gyllideb Glanhau Ffenestri – gan fod y gost yn sefydlog a doedd dim angen rhagor o arian . | | 11 |
| | Ildiwyd o'r gyllideb Sychlanhau, gan nad oes costau sychlanhau ar ôl prynu gwisgoedd newydd | | 3 |
| | Ildiwyd o'r gyllideb sbwriel, yn dilyn camgymeriad wrth ddyrannu | | 58 |
| Adnoddau Dynol yr Aelodau | Ildiwyd o gyllideb Costau Teithio a Chynhaliaeth Staff Cymorth yr Aelodau, gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 87 |
| | Ildiwyd o brosiect cronfa ddata'r AC | | 8 |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | Ildiwyd arian o brosiect TGCh gan fod y gwaith yn cael ei wneud yn fewnol | | 40 |
| Yr Uned Gorfforaethol | Ildiwyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 19 |
| TGCh | Ildiwyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 4 |
| Adnoddau Dynol | Dyrannwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiect TGCh nad yw'n debygol o fynd rhagddo eleni | | 75 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **373** |

## *7. Y gorwariant/tanwariant terfynol a ragwelir*

| | *£'000* | *£'000* |
|---|---|---|
| **Y gyllideb wrth gefn wreiddiol** | | 1,000 |
| *Llai'r* arbedion effeithlonrwydd gofynnol (yn y gyllideb a gymeradwywyd) | | (250) |
| *Ychwanegu* arbedion a nodwyd cyn 1 Ebrill 2009 | | 233 |
| *Ychwanegu'r* arian wrth gefn yng nghyllideb yr Aelodau, nad oes ei angen bellach | | 330 |
| *Ychwanegu* arbedion/tanwariant a nodwyd ers Ebrill 2009 | | 373 |
| *Llai* cronfeydd ychwanegol a ddyrannwyd eisoes i gyllidebau gwasanaethau | | (221) |
| | | **1,465** |
| *Ychwanegu'r* elfen swyddi gwag– amcangyfrif o arbedion wrth aros i lenwi swyddi gwag | | 150 |
| *Ychwanegu* arbedion posibl eraill a nodwyd ond nad ydynt wedi'u trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn eto | | 100 |
| *Ychwanegu* Tanwariant disgwyliedig ar lwfansau Aelodau | | 500 |
| | | **2,215** |
| **Pwysau ariannol ychwanegol:** | | |
| • Costau staffio ychwanegol (amrywiol) | (203) | |
| • Pierhead (net arbedion o £0.300m yng nghyllideb Cyfathrebu Allanol) | (750) | |
| • Rhaglen Arweinyddiaeth | (100) | |
| • Costau ychwanegol 3A | (87) | |
| • Y Rhwydwaith Unedig | (717) | |
| • Mân symiau eraill | (90) | (1,947) |
| Is-gyfanswm | | **268** |
| • Cynnydd mewn dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | | (160) |
| **Balans (Gorwariant) /tanwariant a ragwelir** | | **108** |

## *8. Cymharu perfformiad cyllidebol 2009-10 a 2008-09 drwy gymharu % y gyllideb a wariwyd hyd yn hyn yn ystod y ddwy flynedd*

| **Gwasanaeth** | **2009-10 % y gwariant hyd yma** | **2008-09 % y gwariant hyd yma** |
|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 87 | 98 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 86 | 74 |
| | **87** | **92** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | |
| Adnoddau Dynol | 104 | 130 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 80 | 107 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 97 | 101 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 95 | 96 |
| TGCh | 86 | 101 |
| Cyfathrebu Allanol | 89 | 75 |
| Diogelwch [1] | 90 | |
| | **90** | **99** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 103 | 89 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 95 | 87 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 98 | 99 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 84 | 93 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 94 | 94 |
| | **96** | **93** |
| Cyfanswm - eitemau arian parod | **91** | **98** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | 104 | - |
| Cronfa Bensiwn yr Aelodau | **-** | **-** |
| Cronfa wrth gefn | - | - |
| Cronfa wrth gefn yr Aelodau | - | - |
| **Cyfansymiau** | **92** | **98** |